**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 13 Mawrth 2019 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | M Durke | L R Jones |
| M A Langstone | D W W Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan - Rees | Pennaeth Cyflawniad a Phartneriaeth Addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): K M Roberts

---

## 35 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 36 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2019 fel cofnod cywir.

## 37 Gwerthuso defnydd arian GAD ar draws ysgolion Abertawe

Cyfeiriodd Helen Morgan-Rees at yr adroddiad a gylchredwyd, a oedd yn amlinellu'r dystiolaeth a'r ystadegau a gasglwyd gan adroddiadau'r Ymgynghorwyr Herio mewn perthynas â gwariant o'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD) gan ysgolion yn ystod hydref 2018.

Amlinellwyd y data ar gyfer Dinas a Sir Abertawe o'i gymharu â chanlyniadau Cymru gyfan, ynghyd â'r tablau tystiolaeth mewn perthynas â meysydd gwariant y GDD a gweithgareddau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Abertawe.

Trafododd aelodau'r ystadegau a gofynnont gwestiynau i'r swyddog, yn enwedig ynghylch y meysydd canlynol: yr angen i ddysgu gan awdurdodau lleol eraill a rhannu enghreifftiau o arfer da'n lleol mewn perthynas â gwariant y GDD, y bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion DASA o'u cymharu â chanlyniadau disgyblion Cymru

gyfan, y rhesymau dros y gwahaniaeth rhwng safonau marcio rhwng cyfnodau allweddol 3 a 4 a'r angen am ymagwedd genedlaethol at wella safonau asesu addysgu.

Atebodd y swyddog gwestiynau'r aelodau'n briodol.

Amlinellodd hefyd syniadau ar gyfer y 4 prif faes a nodwyd ar gyfer datblygiad yn y dyfodol mewn ysgolion mewn perthynas â'r GDD:

- Yr uwch-arweinydd a enwir yn yr ysgol (o'r uwch-dîm arweinyddiaeth) i hyrwyddo disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Bydd ganddo gyfrifoldeb am weithredu'r grant yn strategol.
- Y tîm arweinyddiaeth i adolygu strategaethau ymyrryd yn rheolaidd a darparu tystiolaeth o hyn. Dylai ymyriadau a gaiff eu dewis i'w gweithredu fod yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth gadarn. Dylent gynnwys meini prawf ar gyfer mynediad a gadael y gellir eu mesur sy'n hysbysu staff a disgyblion am y cynnydd sy'n cael ei wneud.
- Gwneud y gorau o gynnydd disgyblion mwy abl a thalentog sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim drwy ddefnyddio'r GDD mewn modd mwy penodol ac effeithiol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Dylai cynllun y GDD nodi'r disgyblion hyn a dangos/gwerthuso camau gweithredu/gweithgareddau i'w cefnogi. Lle bo'n berthnasol, dylid cynnwys y ddarpariaeth a'r gwerthusiad o'r gweithgareddau/adnoddau a ddefnyddiwyd i gefnogi dysgu disgyblion PDG/PYD. Datblygu'r broses o fonitro cynnydd academaidd y grŵp hwn o ddisgyblion yn rheolaidd ymhellach.
- Cyflwyno adroddiadau safonedig am y defnydd o'r GDD i'r Ymgynghorydd Herio fel rhan o fonitro SV1, a hefyd gyflwyno'r rhain i'r awdurdod lleol erbyn dyddiad penodol. Mae'r meysydd y dylid adrodd amdanynt yn cynnwys symiau cyllideb a dadansoddiad o'r effaith ar y meysydd canlynol y llynedd: y Blynyddoedd Cynnar, y Cyfnod Sylfaen, cyfnodau allweddol 2, 3 a 4, ADY, MAT a PDG. Dylai adroddiadau hefyd gynnwys gwariant arfaethedig, gan nodi'r ymagwedd ddethol a'r rhesymeg dros ddewis y strategaeth gweithredu hon a chan nodi staff arweiniol ac amserlen adolygu gyda deilliannau dymunol.
- Dylai'r ysgolion e-bostio Is-adran Cyllid yr awdurdod lleol erbyn dyddiad penodol i gadarnhau bod cynlluniau'r GDD, ar gyfer y llynedd ac eleni, yn fyw ar y wefan.

Amlinellodd hefyd y cynigion ar gyfer y newid mewn cyllid a ddirprwyir i ddisgyblion PDG o fis Ebrill, a fydd ar sail clwstwr yn hytrach na thîm a arweinir yn ganolog. Bydd y pwyslais yn symud o ffocws ar ddisgyblion blwyddyn 10 ac 11 i ymagwedd sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr ysgol gyfan. Amlinellodd y goblygiadau staffio posib oherwydd y newid, a nododd fod deialog yn parhau ag ysgolion ar y newidiadau arfaethedig.

Trafododd aelodau'r cynigion uchod a gofynnont gwestiynau amrywiol i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol.

**Cytunwyd** y dylid cefnogi'r pum maes a amlinellwyd uchod a chytuno arnynt.

**38 Cyfeiriadur Arfer, Adolygiadau Cymheiriaid Ysgol i Ysgol a thempledi (Cyflwyniad)**

Rhoddodd Helen Morgan-Rees gyflwyniad PowerPoint manwl ac addysgiadol ar y pynciau canlynol:

- Y sefyllfa bresennol mewn perthynas ag arfer da, templedi ac adolygiadau cymheiriaid mewn perthynas â'r Grant Datblygu Disgyblion;
- Arfer Da – Cyfeiriadur Abertawe, Sefydliad Gwaddol Addysg a digwyddiad diweddar gyda chyfarwyddwr Sefydliad Gwaddol Addysg a'r holl benaethiaid yn Abertawe, Llywodraeth Cymru, Ysgol i Ysgol, Arweiniad i Ymarferwyr, gwaith a nodwyd drwy adolygiadau cymheiriaid, digwyddiadau rhanbarthol;
- Templedi – Cyfarfod rhwng arweinwyr GDD Abertawe ag ERW, Rhwystrau i Ddysgu, Iechyd a Lles, Ymagweddau Ysgol Gyfan, Enghreifftiau o Arfer Da;
- Adolygiadau Cymheiriaid – cynllun peilot yn Ysgol Bryntawe, enghreifftiau cyffredinol ac adolygiadau cymheiriaid presennol, disgwyliadau gofynnol.

Trafododd aelodau gynnwys y cyflwyniad a gwnaethant **gytuno** y dylid ychwanegu'r pum maes y cytunwyd arnynt yng Nghofnod 37 uchod, at y Cyfeiriadur Arfer Da.

Trafododd aelodau ymhellach y meysydd a'r pynciau a godwyd heddiw ac yn flaenorol a oedd yn berthnasol i'r GDD, ynghyd â meysydd i'w datblygu a'u gwella, fel y'u hamlinellwyd yng Nghofnod 37 ac y manylwyd arnynt uchod, a gwnaethant **gytuno** bod y rhain yn ffurfio adroddiad drafft i'r Cabinet y gallai'r pwyllgor ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf fel sail cymeradwyaeth i'r Aelod y Cabinet ei fabwysiadu a'i gyflwyno i'r holl ysgolion.

**39 Adroddiad y Cabinet am Sgiliau 14-19 (Diweddariad ar lafar)**

Rhoddodd Helen Morgan-Rees ddiweddariad llafar mewn perthynas â'r materion a nodir yn adroddiad blaenorol y pwyllgor i'r Cabinet am Ddatblygiad Sgiliau'r Fargen Ddinesig ac amlinellodd y cynnydd a wnaed gan Bartneriaeth Sgiliau Abertawe (PSA).

Mae'r grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o DASA, prifysgolion, colegau lleol ac ysgolion a Gyrfa Cymru, wedi cwrdd sawl gwaith a chytunodd y grŵp, yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, ar ei ddau brif amcan allweddol, sef Galluogrwydd Digidol a Chefnogaeth a Chyngor Gwell ar gyfer Hyfforddiant Galwedigaethol a Chymwysterau.

Nododd hefyd fod dau is-grŵp o PSA wedi'u sefydlu i oruchwylio a datblygu'r ddau destun.

Roedd yr aelodau'n awyddus i fabwysiadu'r ddau destun a oedd yn adlewyrchu materion a phryderon a godwyd ganddynt yn flaenorol ond gwnaethant holi pam nad oedd unrhyw gynrychiolwyr o ddiwydiant/fusnesau ar PSA neu is-grwpiau a gofyn i'r swyddogion geisio cynnwys cynrychiolwyr priodol lle bo'n bosib wrth symud ymlaen a sicrhau y nodir anghenion y farchnad lafur leol.

Amlygir y cais hwn yn yr adroddiad diweddaru perthnasol i'r Cabinet, a fyddai'n amlinellu'r cynnydd ar y fenter sgiliau.

**40 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chynnydd ar weithredu'r cwricwlwm newydd gael ei darparu i'r pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

Gall hon fod yn wybodaeth gefndirol ar gyfer sail testun i'w adolygu yn y flwyddyn ddinesig newydd. Ceisir hefyd farn Ysgolion Arloesi presennol.

**Penderfynwyd** ychwanegu diweddariad llafar newydd ynghylch y cwricwlwm newydd at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.07 pm

**Cadeirydd**